# CYFEILLION LLŶN

Cadeirydd: Elfed Gruffydd,
24, Min y Môr,
Pwllheli,
Gwynedd.

Ysgrifennydd: Gillian Walker,
Tan y Castell,
Sarn Mellteyrn,
Pwllheli,
LL53 8EY.

Pwyllgor Rhanbarth Dwyfor,
16eg o Fedi, 2012

Annwyl Gynghorwyr Dwyfor,

**Parthed: Tyrbinau Gwynt - Pen Llŷn.**

Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gosod cyfrifoldeb statudol ar bob un Cynghorydd yn bersonol i warchod neu wella harddwch naturiol AHNE Llŷn. Mae Cyfeillion Llŷn yn aelod o Gydbwyllgor AHNE Llŷn ac yn bryderus iawn am y bygythiad aruthrol sydd yn wynebu harddwch godidog, tirweddau dynodedig arbennig Penrhyn Llŷn, yn sgil datblygiad y diwydiant ynni gwynt. Mae tyrbinau gwynt yn strwythurau mawr diwydiannol, sy'n gwbwl estron a dieithr yn nhirlun naturiol y penrhyn. Am hyn gofynnwn yn garedig i chwi drafod y mater hwn yn eich cyfarfod heno fel mater brys. 'Rydym yn gwbwl argyhoeddedig y bydd niwed sylweddol pellach i'r AHNE a'r golygfeydd i mewn ac allan ohoni, os na cymerir camau brys i'w gwarchod.

Mae gan Gyngor Gwynedd bolisïau cadarn yn eu lle sydd yn cyfyngu ar ddatblygiadau i ffiniau pentrefi ac yn ein diogelu rhag effeithiau negyddol gorddatblygu a diwydiannau mawr. Mae'r ardal wedi ei dynodi yn 'Ardal Gwarchod y Tirwedd' ac yn 'Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol' yn ogystal ag AHNE a sawl dynodiad arall sydd yn cadarnhau fod yma rinweddau arbennig sydd angen eu gwarchod. Y mae yna hefyd bolisïau a chyfreithiau yn eu lle sydd yn sicrhau ein bod yn gwneud hynny. Yn y gorffennol mae'r polisïau a'r cyfreithiau hyn wedi arwain at wrthod caniatáu ffenestr gromen, am y byddai yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y tirlun a chymeriad yr ardal.

Er hyn, y mae'n amlwg bellach bod diffygion yn y drefn bresennol sydd wedi achosi i dyrbinau o hyd at 34medr o uchder gael eu caniatáu, a bod yna tua 50 o geisiadau am dyrbinau yn Arfon a Dwyfor ar hyn o bryd, gyda sawl un yn uwch na 70 medr. Un o'r diffygion mwyaf ydi fod Cyngor Gwynedd wedi methu â chyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol, a fyddai yn rhoi manylion ar y polisi penodol am dyrbinau gwynt, sef polisi C26.

Nid oes felly ddiffiniadau ar faterion mor sylfaenol â - beth ydi maint tyrbin bach, neu o fewn sawl milltir i ffin ardal ddynodedig y byddai tyrbin o faint penodol yn cael effaith ar osodiad yr ardal ddynodedig.

Gofynnwn i chi felly gefnogi ein cais i Swyddogion a Chynghorwyr Cyngor Gwynedd.

1) i weithredu o hyn ymlaen yn unol â'r gyfraith a'r polisïau lleol a chenedlaethol cyfredol sydd eisoes yn eu lle er mwyn diogelu harddwch naturiol a chymeriad unigryw yr ardal rhag effaith niweidiol y tyrbeini gwynt.

2) i sicrhau y bydd Canllaw Cynllunio Atodol y polisi gwynt yn ategu polisïau B8, B10 a B12, C26 trwy gyflwyno diffiniadau pendant a fydd yn sicrhau gwarchod neu wella harddwch naturiol a chymeriad unigryw'r ardal.

3) i gydweithio gyda Chyfeillion Llŷn a chyrff perthnasol eraill, i sicrhau y cymerir pob cam angenrheidiol i sicrhau gwarchod yr ardaloedd ar ymylon AHNE Llŷn sydd o safon uchel iawn ac sydd ac yn haeddu cael eu cynnwys oddi mewn i'r AHNE yn ôl asesiad LANDMAP gan y Cyngor Cefn Gwlad, fel y cyfeirir atynt ym mholisi 3.3.5

Gyda'r gobaith y byddwn yn Swyddogion, yn Gynghorwyr ac yn Gyfeillion Llŷn yn medru mynd ymlaen efo'n gilydd i warchod ein treftadaeth a "chadw i'r oesoedd a ddel y glendid a fu".

Yn gywir iawn,

***Gillian Walker***

(Ysg.)